

Y Gyfres Arweinyddiaeth

Arweinwyr sy'n Fenywod

Women in Leadership

The Leadership Series



RHONDDA CYNON TAF

Y Gyfres Arweinyddiaeth

Arweinwyr sy'n Fenywod

Women in Leadership

The Leadership Series



Lansiad

Arweinwyr sy'n Fenywod

Beth yw arweinyddiaeth? Diffiniad syml yw mai'r **grefft o ysgogi grŵp o bobl i weithredu tuag at gyflawni nod cyffredin** yw arweinyddiaeth. Mae modd i unrhyw un o fewn sefydliad fod yn arweinydd, nid dim ond y rhai sydd â theitl rheolwr neu oruchwyliwr.

Mae Cyfres Arweinyddiaeth y Cyngor yn rhoi cyfle i staff ar bob lefel i ddod ynghyd i wella'u gwybodaeth a'u sgiliau arwain. Bydd y Gyfres Arweinyddiaeth yn cynnwys ystod o achlysuron rhithwir lle bydd arbenigwyr blaenllaw ar bynciau penodol yn trafod materion cyfoes ac yn darparu cyfleoedd i edrych ar sut mae hyn yn effeithio arnoch chi yn eich swyddogaeth arwain neu reoli.

Rydyn ni'n falch o'ch gwahodd i Lansiad **y Gyfres Arweinyddiaeth – Arweinwyr sy'n Fenywod**. Mae'r gyfres yn darparu cyfleoedd i glywed gan fenywod sy'n arweinwyr yn eu meysydd o ddewis. Byddwn ni'n clywed eu straeon personol am yr heriau y buon nhw'n eu hwynebu yn ystod eu teithiau gyrfa, sut y gwnaethon nhw oresgyn rhwystrau a sut maen nhw'n defnyddio eu doniau unigryw i aros ar frig eu proffesiwn.

Bydd y gyfres hefyd yn darparu cyfleoedd i staff y Cyngor fyfyrion ar eu gyrfaedd eu hunain, dysgu gwersi o brofiadau pobl eraill a dod o hyd i ffyrdd o ddatblygu eu llwybrau gyrfa eu hunain o fewn y Cyngor.

Women in Leadership

Launch

"What is leadership? A simple definition is that leadership is **the art of motivating a group of people to act towards achieving a common goal**". Leaders can be anyone within the organisation, not just those with the title of manager or supervisor.

The Councils' Leadership Series provides an opportunity for staff at all levels to come together to enhance their leadership skills and knowledge. The Leadership Series features a range of virtual events that will see leading subject experts discussing current issues and provide opportunities to explore how this affects you in your leadership or management role.

We are pleased to invite you to the Launch of the **Women Into Leadership Series**. The series provides opportunities to hear from women who are leaders in their chosen fields. We will hear their personal stories of the challenges they faced during their career journeys', how they overcame barriers and obstacles and how they use their unique talents to stay at the top of their profession.

The series will also provide opportunities for Council staff to reflect upon their own careers, learn lessons from the stories of others and find ways to develop their own career paths within the Council.

Agenda'r Lansiad

Croeso a Chyflwyniad –

Deb Hughes,
*Cyfarwyddwr Gwasanaeth
Datblygu Sefydliadol*

Merched yn Ychwanegu Gwerth at yr Economi – Cefndir i'r Rhaglen –

Melanie Warburton,
Rheolwr Amrywiaeth a Chynhwysiant

Gwneud yn siŵr bod gan bawb yr hyder i ymgymryd â swyddogaethau newydd a gwneud y mwyaf o'i botensial o ran arweinyddiaeth –

Chris Bradshaw,
Prif Weithredwr

Hyrwyddo Materion Menywod –

Gaynor Davies,
*Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau
Cynhwysiant, Uwch Hyrwyddwr Amrywiaeth
dros Gydraddoldeb Rhywedd*

Ystyriaethau –

Y Cyngorydd Maureen Webber,
Dirprwy Arweinydd

Prif Siaradwr –

Y Farwnes Wilcox, *Casnewydd* –
Deborah Wilcox

Siaradwr Gwadd –

Ruth Morgan,
*Cyfarwyddwr - Pennaeth Llywodraeth Leol,
KPMG UK*

Sylwadau i gloi –

Deb Hughes,
*Cyfarwyddwr Gwasanaeth
Datblygu Sefydliadol*

Launch Event Agenda

Welcome and Opening –

Deb Hughes,
*Service Director for
Organisational Development*

Women Adding Value to the Economy – A background to the Programme –

Melanie Warburton,
Diversity and Inclusion Manager

Making sure everyone has the confidence to take on new roles and maximise their leadership potential –

Chris Bradshaw,
Chief Executive

Championing Women's Issues –

Gaynor Davies,
*Director of Education and Inclusion Services,
Senior Diversity Champion for Gender Equality*

Reflections –

Deputy Leader,
Councillor Maureen Webber

Keynote Speaker –

The Baroness Wilcox of Newport –
Deborah Wilcox

Guest Speaker –

Ruth Morgan,
*Director - Head of Local Government
at KPMG UK*

Closing Remarks –

Deb Hughes,
*Service Director for
Organisational Development*

Bywgraffiadau'r Siaradwyr

Chris Bradshaw –

Prif Weithredwr, Cyngor Rhondda Cynon Taf

Gŵr â gradd mathemateg o Brifysgol Abertawe a dreuliodd 12 mlynedd gyntaf ei yrfa fel cyfrifydd siartredig gyda PwC, a deunaw mis fel Cyfarwyddwr Cyllid i fusnes technoleg newydd.

Ymunodd Chris â Chyngor Rhondda Cynon Taf ym mis Ionawr 2001 fel Cyfarwyddwr Gwasanaeth Adnoddau yn rhan o Gyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant. Yn 2011 daeth yn Gyfarwyddwr Addysg y Cyngor, ac wedi hynny yn Brif Weithredwr yn 2015.

Gaynor Davies –

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, Cyngor Rhondda Cynon Taf

Dechreuodd Gaynor ei gyrfa mewn addysg ym Mwrdeistref Llundain San Steffan bron i 29 mlynedd yn ôl, yn dilyn ei gradd israddedig mewn Seicoleg a hyfforddiant TAR yng Ngholeg Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol Durham. Fe wnaeth ei phrofiadau fel athrawes ysgol gynradd yn Llundain ei galluogi i ddilyn llwybr dilyniant cynlluniedig i astudiaethau ôl-raddedig pellach mewn Seicoleg Addysg ym Mhrifysgol Abertawe.

Ar ôl cwblhau ei hyfforddiant a'i Gradd Meistr mewn Seicoleg Addysg, bu Gaynor yn gweithio i Gyngor Sir Caerdydd am bron i 14 mlynedd fel Seicolegydd Addysg a sicrhodd swydd Uwch Seicolegydd Addysg o fewn pedair blynedd i gymhwyso. Aeth ymlaen i swydd Dirprwy Brif Seicolegydd Addysg gyda Chyngor Rhondda Cynon Taf yn 2009.

Mae Gaynor wedi cael pedair swydd rheoli ac arwain yn y Gyfarwyddiaeth Addysg yn Rhondda Cynon Taf er 2009 ac yn 2019, cafodd ei phenodi'n Gyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant. Mae hi a'i charfan wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth agos â 115 o ysgolion y Cyngor i sicrhau bod ein disgyblion yn profi tegwch a rhagoriaeth mewn addysg ac yn cael y siawns orau o gyflawni eu potensial a'u dyheadau academaidd.

Speaker Biographies

Chris Bradshaw –

Chief Executive, Rhondda Cynon Taf Council

A mathematics graduate from Swansea University, spent the first 12 years of his career as a chartered accountant with PwC, and eighteen months as the Finance Director of a technology start-up.

Chris joined Rhondda Cynon Taf Council in January 2001 as the Service Director for Resources in the Community & Children's Services Group. In 2011 he became the Council's Director of Education, and subsequently the Chief Executive in 2015.

Gaynor Davies –

Director of Education and Inclusion Services, Rhondda Cynon Taf Council

Gaynor began her career in education in the London Borough of Westminster almost 29 years ago, following her undergraduate degree in Psychology and PGCE training at University College Cardiff and Durham University. Her experiences as a primary school teacher in London enabled her to pursue a planned progression route into further post graduate studies in Educational Psychology at Swansea University.

On completion of her training and Masters in Educational Psychology, Gaynor worked for Cardiff County Council for nearly 14 years as an Educational Psychologist and secured a Senior Educational Psychologist role within four years of qualifying. She progressed to the post of Deputy Principal Educational Psychologist in Rhondda Cynon Taf Council in 2009.

Gaynor has held four managerial and leadership positions in the Education Directorate in Rhondda Cynon Taf since 2009 and in 2019, was appointed to the role of Director of Education and Inclusion Services. She and her team are committed to working in close partnership with the Council's 115 schools to ensure that our learners experience equity and excellence in education and have the best chance of achieving their academic potential and aspirations.

Deb Hughes –*Cyfarwyddwr Gwasanaeth Datblygu Sefydliadol, Cyngor Rhondda Cynon Taf*

Dechreuodd Deb ei gyrfa mewn llywodraeth leol yn 2000 ar ôl gweithio ym maes ymgynghoriaeth hyfforddi gyda sefydliadau mawr yn y sector preifat. A hithau'n athrawes uwchradd gymwysedig, mae'n frwd iawn am ddysgu a datblygu a darparu cyfleoedd i unigolion gyrraedd eu potensial llawn.

A hithau'n gymrawd o'r Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu ac yn meddu ar Radd Meistr mewn Datblygu Sefydliadol, mae Deb wedi adeiladu carfan amrywiol sydd wedi cyflwyno rhaglenni arobryn gan gynnwys Cynlluniau Graddedigion a Phrentisiaethau'r Cyngor a rhaglenni cyflogaeth arbenigol. Mae Deb yn frwd am ymgysylltiad a lles staff ac mae ei charfan yn darparu amrywiaeth o raglenni dysgu a datblygu, gwasanaethau iechyd a lles galwedigaethol, buddion staff ac ymgynghori â staff.

Hoffai Deb adael rhaglenni safon uchel ar ei hôl sy'n sicrhau bod unigolion, yn enwedig y rhai sydd o gefndiroedd difreintiedig a chymhleth, yn cael cyfle i ffynnu o fewn y Cyngor a thu hwnt.

Ruth Morgan –*Pennaeth Llywodraeth Leol – KPMG UK*

Dechreuodd Ruth ei gyrfa ym maes llywodraeth leol ar y Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Datblygu Graddedigion dan arweiniad y Gymdeithas Llywodraeth Leol gyda lleoliad 2 flynedd gyda Chyngor Rhondda Cynon Taf. Ar ddiwedd y rhaglen daeth Ruth yn Rheolwr Gwella Gwasanaeth gyda Chyngor Merthyr Tudful.

Gan symud i swydd ymgynghori, ymunodd Ruth â PricewaterhouseCoopers yn 2007 lle treuliodd 14 mlynedd, chwech ohonyn nhw ar lefel Cyfarwyddwr fel Cyfarwyddwr Arweiniol ym Mhractis Ymgynghori Sector Cyhoeddus Y Gorllewin a Chymru.

Mae hi bellach yn Bennaeth Llywodraeth Leol ar lefel Cyfarwyddwr gyda KPMG UK. Mae carfanau Ruth yn gweithio gyda Chyngorau ledled y DU i gyflawni eu dyheadau. Mae Ruth yn frwd am wasanaethau cyhoeddus a gweithio gyda chleientiaid, gan ddod â KPMG i gyd i'w cymunedau. Mae hyn yn aml yn cynnwys ystyried canlyniadau y tu allan i'n rhaglen waith benodol, megis defnyddio ein gwerthoedd cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol i gefnogi rhaglenni newid eraill sy'n bwysig i'r ardal a'r Cyngor.

Deb Hughes –*Service Director Organisational Development, Rhondda Cynon Taf Council*

Deb began her career in local government in 2000 after working in training consultancy with large private sector organisations. A qualified secondary teacher, she has a strong drive for learning and development and providing opportunities for individuals to reach their full potential.

A fellow of the CIPD and holding a Masters in Organisational Development Deb has built a diverse team delivering award winning programmes including the Councils Graduate and Apprenticeship Schemes and specialist employment programmes. Deb is passionate about staff engagement and wellbeing with her team providing an array of learning and development programmes, occupational health and wellbeing services, staff benefits and staff consultation.

Deb would like her legacy to be that the Council has high quality programmes in place to ensuring that individuals, particularly those that are from disadvantaged and complex backgrounds, have an opportunity to flourish within the Council and beyond.

Ruth Morgan –*Head of Local Government UK - KPMG*

Ruth began her career in local government on the National Graduate Development Programme led by the Local Government Association with a 2-year placement in Rhondda Cynon Taf Council. At the end of the programme Ruth became Service Improvement Manager at Merthyr Tydfil Council.

Moving to a consultancy role Ruth joined PricewaterhouseCoopers in 2007 where she spent 14 years, six of which were at Director level as Lead Director in the West and Wales Public Sector Consulting Practice.

At KPMG she is now Director level, Head of Local Government at KPMG UK. Ruth's teams work with Councils across the UK to achieve their ambitions. Ruth is passionate about public services and working with clients, bringing all of KPMG to their communities. This often includes considering outcomes outside of our specific programme of work, such as using our corporate social responsibility values to support other programmes of change important to the area and Council.

Melanie Warburton –*Rheolwr Amrywiaeth a Chynhwysiant,
Cyngor Rhondda Cynon Taf.*

Mae Melanie wedi gweithio ym maes Adnoddau Dynol gyda'r Cyngor er bron i 20 mlynedd. Yn wreiddiol, roedd Melanie mewn swyddi cyffredinolwr a pholisi AD, er bod ei 14 blynedd diwethaf wedi canolbwyntio ar gydraddoldeb lle mae'n frwd am sicrhau bod y Cyngor yn weithle a bwrdeistref cynhwysol/gynhwysol i bobl o bob hunaniaeth.

Gan weithio gyda rhanddeiliaid mae hi wedi ymgorffori polisi ac arfer cynhwysol gan gynnwys addewid Amser i Newid Cymru i fynd i'r afael â stigma ynghylch iechyd meddwl, Cyfamod y Lluoedd Arfog, Hyderus o ran Anabledd, Rhaglen Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall, a gweithio ar leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Mae hi wedi sefydlu 3 rhwydwaith staff sy'n rhoi llais i staff sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ar y materion sy'n effeithio fwyaf arnyn nhw a hefyd wedi creu rhwydwaith Cynghreiriaid i hyrwyddo materion amrywiaeth.

Yn ddiweddar datblygodd arweiniad sefydliadol a chodi ymwybyddiaeth o'r menopos a chynhaliodd brosiect ymchwil i'r rhwystrau i fenywod sy'n dychwelyd o gyfnod mamolaeth. Ar hyn o bryd mae Melanie yn datblygu Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol i'r Cyngor ac yn gwella llywodraethu ar gyfer asesiadau effaith ar gydraddoldeb ac effaith economaidd-gymdeithasol.

Y Cynghorydd Maureen Webber –*Cynghorydd Llafur Canol Rhydfelen / Ilan a Dirprwy
Arweinydd Cyngor Rhondda Cynon Taf gyda chyfrifoldeb
am Fusnes y Cyngor a hyrwyddo'r Lluoedd Arfog.*

Mae'r Cynghorydd Maureen Webber wedi bod yn Gyngorydd Bwrdeistref Sirol er 1996 ac mae'n cynrychioli Canol Rhydfelen ac Ilan. Mae hi wedi gwasanaethu yn y Cabinet er 2010 a hi yw Dirprwy Arweinydd y Cyngor gyda chyfrifoldeb am Fusnes y Cyngor. Y Cynghorydd Webber yw Hyrwyddwr Lluoedd Arfog y Cyngor hefyd.

Cyn 2010, roedd y Cynghorydd Webber yn Gadeirydd Pwyllgor Trwyddedu'r Cyngor ac mae wedi bod yn aelod o nifer o Bwyllgorau'r Cyngor, gan gynnwys Llywodraethu Corfforaethol, Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg a'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd fel Is-gadeirydd.

Am nifer o flynyddoedd, bu'r Cynghorydd Webber yn gweithio ym Mhrifysgol Morgannwg ac, yn ogystal â gweithio'n agos gyda nifer o grwpiau a chlybiau cymunedol lleol yn Rhydfelen a'r cyffiniau, mae'n Is-gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Heol Y Celyn.

Melanie Warburton –*Diversity and Inclusion Manager,
Rhondda Cynon Taf Council.*

Melanie has worked in Human Resources in the Council for almost 20 years. Originally Melanie worked in HR generalist and policy roles, though her last 14 years have been equality focussed, where she is passionate in ensuring the Council is an inclusive workplace and borough for people of all identities.

Working with stakeholders she has embedded inclusive policy and practice including the Time To Change Wales pledge to tackle stigma around mental health, the Armed Forces Covenant, Disability Confident, Stonewall Diversity Champions Programme, and work on reducing the gender pay gap. She has established 3 staff networks which provide under-represented staff with a voice on the issues that most affect them and also created an Allies network to champion diversity issues.

Recently she has developed organisation guidance and raised awareness of the menopause and undertook a research project into the barriers for women returning from maternity leave. Melanie is currently developing a Race Equality Action Plan for the Council and improving governance for Equality and Socio-economic impact assessments.

Councillor Maureen Webber –*Labour Councillor for Rhydyfelin Central/llan and
Deputy Leader of Rhondda Cynon Taf Council with
responsibility for Council Business and Armed
Forces Champion*

Councillor Maureen Webber has been a County Borough Councillor since 1996 and represents Central Rhydyfelin & Ilan. She has served in the Cabinet since 2010 and is the Deputy Leader of the Council with responsibility for Council Business. Councillor Webber is also the Council's Armed Forces Champion.

Prior to 2010, Councillor Webber was Chair of the Council's Licensing Committee and has sat on a number of Council Committees, including Corporate Governance, the Welsh Language Cabinet Steering Group and the Democratic Services Committee as Vice Chair.

For many years, Councillor Webber worked at the University of Glamorgan and, as well as working closely with a number of local community groups and clubs in and around Rhydyfelin, is the Vice Chair of Governors for Heol Y Celyn School.

Y Farwnes Wilcox, Casnewydd – Deborah Wilcox

Ganwyd yr Arglwyddes Wilcox yn Tylorstown yng Nghwm Rhondda a bu'n gweithio fel athrawes am dros 30 mlynedd. Dechreuodd ei gyrfa gyda gradd gychwynnol o'r Ysgol Ganolog Lleferydd a Drama (CSSD) ac wedi hynny enillodd radd meistr yn y Celfyddydau ym Mhrifysgol Cymru, Caerdydd.

A hithau'n Gymrawd Cymdeithas Frenhinol y Celfyddydau, treuliodd dros 30 mlynedd fel athrawes a bu'n Bennaeth cyfadran y Celfyddydau Perfformio yn Ysgol Uwchradd y Ddraenen-wen, Pontypridd am 20 mlynedd lle bu'n uwch arholwr allanol ar gyfer CBAC ac AQA.

Yn 2004 enillodd sedd Ward Gaer gyda Chyngor Dinas Casnewydd yn ogystal â thri etholiad arall yn 2008, 2012 a 2017. Daeth yn Aelod o'r Cabinet ar faterion Hamdden a Diwylliant yn 2012 ac yn 2014 a hi oedd yn gyfrifol am y maes gwasanaeth mwyaf o blith aelodau'r Cabinet a hithau'n Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Gwasanaethau i Blant.

Yn 2016 daeth y Cynghorydd Debbie Wilcox yn Arweinydd benywaidd cyntaf Cyngor Dinas Casnewydd ac ym mis Mai 2017 enillodd yr etholiad gan sicrhau gweinyddiaeth Lafur yn y ddinas.

Ym mis Mehefin 2017, daeth yn Arweinydd benywaidd cyntaf Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, y corff sy'n cynrychioli pob cyngor yng Nghymru. Cynrychiolodd Gymru hefyd fel aelod o Weithrediaeth Cymdeithas Llywodraeth Leol yn Llundain.

Dyrchafwyd y Cynghorydd Wilcox i Dŷ'r Arglwyddi fel Arglwyddes am Oes ym mis Hydref 2019 gyda'r teitl Y Farwnes Wilcox, Casnewydd. Ym mis Mawrth 2020, penodwyd yr Arglwyddes Wilcox yn Chwip yr Wrthblaid gan ymuno â'r tîm llywodraeth leol yn Nhŷ'r Arglwyddi ac ym mis Medi 2020 fe'i penodwyd yn Llefarydd yr Wrthblaid ar faterion Menywod a Chydraddoldeb ac aeth hi â deddfwriaeth arloesol y Mesur Cam-drin Domestig trwy'r Arglwyddi.

Er Mawrth 2021, hi yw Gweinidog Cymru'r Wrthblaid a'r Brif Chwip Addysg ar Fainc Flaen Tŷ'r Arglwyddi.

The Baroness Wilcox of Newport – Deborah Wilcox

Lady Wilcox was born in Tylorstown in the Rhondda and worked as a teacher for over 30 years. She began her career with an initial degree from the Central School of Speech and Drama and subsequently gained a higher degree of Master of Arts from the University of Wales, Cardiff.

A Fellow of the Royal Society of Arts, she spent over 30 years as a teacher and was Head of the Performing Arts faculty at Hawthorn High School, Pontypridd for 20 years where she was a senior external examiner for both the WJEC and AQA.

In 2004 she won the seat of the Gaer Ward at Newport City Council and won a further three elections in 2008, 2012 and 2017. She became Cabinet Member for Leisure and Culture in 2012 and in 2014 she held the Council's largest portfolio as Cabinet Member for Education and Children's Services.

In 2016 Councillor Debbie Wilcox became the first female Leader of Newport City Council and in May 2017 won the election ensuring a Labour majority administration in the city.

In June 2017, she became the first female Leader of the Welsh Local Government Association, the body representing all councils in Wales. She also represented Wales as a member of the Local Government Association Executive in London.

Councillor Wilcox was elevated to the House of Lords as a Life Peer in October 2019 with the title of The Baroness Wilcox of Newport. In March 2020 Lady Wilcox was appointed as an Opposition Whip joining the local government team in the Lords and in September 2020 was appointed as Shadow Spokesperson for Women & Equalities and took the groundbreaking legislation of the Domestic Abuse Bill through the Lords.

Since March 2021 she now holds the Shadow Ministerial Portfolio for Wales and is the Education Whip on the Lords Front Bench.

